# IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH
# 14 Mai, 2021

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr - David Bithell (Cyngor Wrecsam), Robert G Parry (Cyngor Ynys Môn), Greg Robbins (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Gareth Wyn Griffith (Cyngor Gwynedd), Brian Jones (Cyngor Sir Ddinbych) a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)

Swyddogion yn Bresennol – Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Huw Percy (Cyngor Ynys Môn), Stephen Jones (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Iwan G D Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Arweiniol), Peter Daniels (Cyngor Sir Ddinbych) Lowri Haf Evans ac Natalie Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth – Awdurdod Arweiniol)

Eraill a wahoddwyd - Iwan Prys Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd), Lee Robinson (Trafnidiaeth Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid – Awdurdod Arweiniol), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganwyd buddiant personol gan Y Cynghorydd David Bithell ar Eitem 3 gan ei fod yn gweithio i Network Rail.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. COFNODION**

Derbyniwyd y cofnodion o’r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 7fed Rhagfyr, 2020 fel rhai cywir yn ddarostyngedig:

- Cywiro cofnodion Saesneg i nodi mai i Gyngor Sir Ddinbych ac nid Cyngor Sir y Fflint y mae Peter Daniels yn gweithio.

**5. DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD AR WAITH BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU A'R GRŴP TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cadeirydd yn diweddaru'r Is-Fwrdd ar y ffrydiau gwaith a'u cynnydd dros y ddeufis diwethaf.

Trafodwyd y prif bwyntiau gan gynnwys y canlynol;

- Bod yr Is-Fwrdd i gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd dwywaith y flwyddyn i'w diweddaru ar y gwaith.
- Rhoddwyd trosolwg ar y sefyllfa gyda'r Cyd Bwyllgorau Corfforaethol gan nodi y byddant yn trafod materion mwy cyfyng nag a thrafodwyd yn yr Is-Fwrdd hwn.
- Nodwyd eu bod yn disgwyl am arweiniad pellach yn dilyn yr etholiadau seneddol diweddar

Diolchwyd am yr adroddiad.

Ni chafwyd sylwadau pellach.

**6. DIWEDDARIAD BYSIAU RHANBARTHOL A METRO GOGLEDD CYMRU**

**Cyflwyniad gan Lee Robinson, TfW.**

**<u>Metro Gogledd Cymru</u>**

Rhannwyd cyflwyniad gyda'r Is-Fwrdd yn egluro'r darlun cenedlaethol ac yna ffocysu ar Ogledd Cymru a'r prosiectau sydd ar waith. Eglurwyd cyd-destun y rhaglen Metro Gogledd Cymru a thywyswyd yr Is-Fwrdd drwy'r amserlen arfaethedig a'r parthau dan sylw.

Trafodwyd y prif amcanion ynghylch Metro gogledd Cymru gan gynnwys:

- Bod angen diwygio ambell i amserlen bresennol gan eu bod yn gyfyng
- Nifer o adrannau gydag arwyddion wedi dyddio
- Ar y cyfan, mae cyflymdra isel ar y lein
- Bod angen gwerthuso cyflwr presennol asedau sy'n ymwneud a'r Metro
- Nodi bod rhai gorsafoedd yn parhau i fod yn anhygyrch

- Croesfannau rheilffordd yn amharu ar y gallu i gynnal trenau sy'n rhedeg yn gyflymach ac yn amlach.

Amlygwyd y camau nesaf fel a ganlyn:

- Gwaith parhaus gydag Network Rail er mwyn gwerthuso croesfannau rheilffordd a chyfarch yr anghenion yn y gobaith o gyrraedd datrysiad parhaol i'r sefyllfa.
- Gwelliannau i ddod er enghraifft yn Shotton a Glannau Dyfrdwy er mwyn cynyddu cynhwysedd.
- Dealltwriaeth o pan ddefnyddir ceir fel modd trafnidiaeth wrth deithio rhwng Gogledd Cymru a dinasoedd fel Manceinion. Archwilio cysylltiad gyda HS2.
- Archwilio llefydd lle gallai addasu'r ddarpariaeth heb angen newid sylweddol i'r isadeiledd, er enghraifft o amgylch Gaer a Llandudno.
- Archwilio estyniad gwasanaeth yn llefydd megis Caernarfon a Lein Amlwch.

**<u>Bysiau Rhanbarthol</u>**

Aethpwyd ati i drafod materion ynghylch bysiau rhanbarthol, gan dynnu sylw at y prif egwyddorion fel a ganlyn:

- Awdurdodau lleol wedi cytuno mai prif amcan yw cynyddu defnydd ar y rhwydwaith bysiau.
- Amlygwyd yng Ngogledd Cymru mewn sawl ardal nad oedd dewis amgen gan ddefnyddwyr a dyna pam mae cyfrannau uchel o ddefnyddwyr i'w gweld.
- Canfyddiad yw cyflwyno'r rhwydweithiau mewn modd sy'n caniatáu gwella cysylltedd gan fod y rhwydwaith mor gymhleth.
- Trefnwyd cytundebau tocynnau er mwyn hwyluso prynu tocynnau, i gael mynediad at ddata defnyddwyr, ac i wella effeithlonrwydd.
- Soniwyd am brosiectau traws Gogledd Cymru mewn ardaloedd megis Bangor, Prestatyn a Chaergybi.
- Nodwyd bod gwaith yn digwydd gydag Awdurdodau Lleol er mwyn adnabod safleoedd posib Parcio a Theithio megis Bangor, Rhyl a Chyffordd Llandudno a fyddai hefyd yn cael effaith bositif ar y Parc Cenedlaethol gan leihau'r problemau parcio.
- Eglurwyd bod cynllun peilot ar waith er mwyn cyfyngu prisiau tocynnau
- Cwmni bysiau Traws Cymru yn edrych ar ffyrdd o ganiatáu integreiddio gyda'r trenau er

mwyn hwyluso teithio.

Cododd y sylwadau isod yn ystod y drafodaeth:

- Gofynnwyd y Cadeirydd am fwy o wybodaeth ynghylch y raddfa amser tebygol ar gyfer y camau nesaf.
- Mynegwyd un aelod bod angen gweithio ar frandio Metro Gogledd Cymru er mwyn ei hyrwyddo.
- Cytunwyd bod gwasanaeth amserlennu yn bwysig iawn pan mae nifer uchel o ddefnyddwyr er mwyn cadw hyder yn y gwasanaeth
- Gofynnwyd a oes unrhyw gynlluniau i addasu'r weledigaeth wrth i'r gweinidog trafnidiaeth newydd ymgymryd yn ei swydd. Holwyd aelod ynghylch cyllid ac os oedd cadarnhad o gyllid tymor hir er mwyn ariannu'r prosiectau sydd ar y gweill
- Nodwyd y byddai cysylltiadau o reilffordd Bangor yn gwella rhwydwaith teithio nifer o drigolion, gan gynnwys hwyluso'r daith i'r gweithle neu Ysgol/Coleg.
- Ategwyd hyn i nodi yn sicr nad diwallu anghenion ymwelwyr yn unig sydd angen a phwysleisiwyd pwysigrwydd diwallu anghenion lleol
- Mynegwyd diddordeb mewn cydweithio efo'r Parc Cenedlaethol i fonitro sefyllfa trafnidiaeth yn Eryri. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod aelodau'r Is-Fwrdd efo mewnbwn yn nhrafodaethau.
- Diolchwyd Lee Robinson am yr adroddiad sy'n amlygu faint o waith sydd yn digwydd o fewn y meysydd trafnidiaeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nodwyd:

- Y byddai modd sicrhau cysondeb gyda'r elfen marchnata er mwyn amlygu cysyniad o Fetro Gogledd Cymru.
- Mynegwyd nad oedd bwriad i newid cyfeiriad y gwaith arfaethedig na'r ddamcaniaeth bresennol wedi i Ken Skates sefyll i lawr fel gweinidog dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru.
- Ynghylch cyllid, nodwyd nad oedd sicrwydd pendant i gyllido'r prosiectau dan sylw, fodd bynnag mae cynllun 5 mlynedd mewn egwyddor yn awgrymu y bydd cyllid ar gael.
- Cyfeiriwyd at faniffesto'r Blaid Lafur ynghylch

Trafnidiaeth, yn arbennig o amgylch gwella trafnidiaeth yn y Gogledd.

- Teithio actif yn bwysig iawn ac mae angen edrych ar ffyrdd i ganiatáu mynediad at orsafoedd a threnau ar feic neu ar droed.

Awgrymwyd bod angen cyfarfod arall yn yr Haf cyn y cyfarfod nesaf arfaethedig yn yr Hydref ar gyfer trafod blaenoriaethau'r Is-Fwrdd.

## 7. EITEM ER GWYBODAETH - DATGARBONEIDDIO TRAFNIDIAETH A DIWEDDARIAD HWB HYDROGEN

Cyflwynwyd yr eitem yma er gwybodaeth yn unig.

Croesawyd yr adroddiad gan nodi 'r cyfleoedd a swyddi a ddaw yn sgil datblygiadau gorsafoedd llenwi Hydrogen.

Ategwyd y byddai cerbydau hydrogen at berthynas casglu sbwriel ayyb ar gael erbyn diwedd y flwyddyn

Codwyd y sylwadau isod mewn perthynas â'r adroddiad:

- Nodwyd nad yw aelodau'r Is-Fwrdd yn ymwybodol o'r camau sydd ar y gweill gyda Hydrogen. Ategwyd bod cyfle i sefydlu os oes angen rhanbarthol ar gyfer hydrogen gwyrdd er mwyn adrodd hyn i Lywodraeth Cymru.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

Gofynnodd cyn aelod yr Is-Fwrdd Carolyn Thomas AS, petai fodd iddi fynychu cyfarfodydd fel sylwedydd yn y dyfodol .

Cytunwyd nad oedd gwrthwynebiad, ac ategwyd y byddai'n ddefnyddiol i Aelod Seneddol fynychu.

Dechreuodd y cyfarfod am 11yb a daeth i ben am 12:25pm.

Cadeirydd

**1.**